| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Y CYNGOR BLYNYDDOL** |
| **DYDDIAD** | **12 MAI, 2011** |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | **CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** |
| **PWRPAS** | **Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol y Cyngor** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Dyrannu Seddau ar Bwyllgorau'r Cyngor** |
| **AWDUR** | **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol** |
| **ARWEINYDD PORTFFOLIO** | **Cynghorydd Stephen Churchman** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989, Adran 15, mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cyfansoddiad ei bwyllgorau ac is-bwyllgorau yn adlewyrchu cryfderau'r gwahanol grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor.

1.2 Mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud hynny o leiaf yn flynyddol gan ei fod yn rheidrwydd gwneud hynny yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor.

1.3 Yn dilyn marwolaeth sydyn y Cynghorydd John R. Jones ar ddiwedd mis Mawrth mae 74 sedd ar y Cyngor.

1.4 Ar 14 Ebrill, 2011 derbyniwyd cadarnhad bod y Cynghorydd Alan Jones Evans wedi ymuno â Grŵp Plaid Cymru o'r Grŵp Annibynnol.

1.5 O ganlyniad mae cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:-

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | 37 |
| Annibynnol | 16 |
| Llais Gwynedd | 13 |
| Democratiaid Rhyddfrydol | 4 |
| Llafur | 4 |
| **Cyfanswm** | **74** |

## 2. DYRANIAD Y SEDDAU AR BWYLLGORAU

2.1 I atgoffa'r aelodau, nodir yma'r pedair prif reol yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 ynglŷn â dyrannu seddau:-

2.2 (a) Ni chaiff pob sedd ar bwyllgor ei dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;

(b) Rhaid dyrannu mwyafrif y seddau ar bwyllgor i grŵp gwleidyddol os yw nifer y personau sy'n perthyn i'r grŵp yn fwyafrif o aelodau'r Cyngor;

(c) Yn amodol ar baragraffau (a) a (b) uchod, bydd nifer y seddau ar y pwyllgorau cyffredin a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un fath â'r nifer o'r holl seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor;

(ch) Yn amodol ar (a),(b) ac (c) uchod, bydd nifer y seddau ar bwyllgor a ddyrennir i bob grŵp gwleidyddol yr un gyfran o'r seddau ar y pwyllgor â'r nifer o seddau sydd gan aelodau'r grŵp hwnnw ar y Cyngor.

2.3 Er mwyn sicrhau y glynir wrth y rheolau hyn, mae'r Cyngor wedi bod yn ymdrin â phwyllgorau mewn blociau gwahanol yn y gorffennol. Mae hyn yn ei wneud yn haws i sicrhau y glynir wrth reol (c) ym mharagraff 2.2 uchod hefyd.

2.4 Yng nghyfarfod y Cyngor Llawn 16 Rhagfyr, 2010 penderfynwyd cydweithio gyda Chyngor Ynys Môn i greu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd yn cynnwys saith aelod ac un eilydd o'r ddau Cyngor ar sail cydbwysedd gwleidyddol sydd wedi cynyddu nifer y seddau ar bwyllgorau'r Cyngor.

2.5 Yn dilyn colli un aelod o'r Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol mae angen i'r Cyngor ystyried sut mae am ymdrin â dyrannu seddau ar bwyllgorau'r Cyngor hyd oni bod is etholiad wedi ei gynnal ym mis Mehefin.

2.6 Yn ogystal mae angen i'r Cyngor cymryd i ystyriaeth y newid i'r cydbwysedd rhwng y grwpiau gwleidyddol wrth ddyrannu seddau ar bwyllgorau'r Cyngor yn dilyn i un aelod newid grŵp gwleidyddol sy'n golygu bod nifer y seddau gan Grŵp Plaid Cymru wedi cynyddu ychydig.

2.7 Yn unol â threfn y Cyngor hwn gofynnwyd i Grŵp Busnes y Cyngor gyfarfod i drafod y mater er cyflwyno argymhelliad i'r Cyngor Llawn.

2.8 Cyfarfu'r Grŵp Busnes dwywaith ar 5 Ebrill, 2011 a'r 3 Mai, 2011.

2.9 Dau ddewis sydd ar gael, sef gadael y pwyllgorau fel y maent ar hyn o bryd gan ddyrannu seddau rhwng 75 aelod a chadw tair sedd wag ar bwyllgorau Craffu Plant a Phobl Ifanc, Trwyddedu Canolog a Phensiynau tan gyfarfod y Cyngor ym mis Gorffennaf. (gweler **Atodiad A**)

2.10 Dewis arall yw cadw tair sedd wag fel y noder yn 2.9 a bod y Grŵp Annibynnol yn rhoi dwy sedd i Grŵp Plaid Cymru ar y Pwyllgor Pensiynau a naill ai'r Pwyllgor Archwilio, Cynllunio neu Trwyddedu.

2.11 Mae'r newid yn y cydbwysedd gwleidyddol hefyd yn golygu bod Grŵp Plaid Cymru yn cael sedd ychwanegol ar y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar draul y Grŵp Llafur.

2.12 Barn Grŵp Busnes y Cyngor oedd gwneud cyn lleied o newid a phosibl hyd oni bod yr is etholiad yn Ward Arllechwedd wedi ei gynnal ac felly penderfynwyd argymell y dewis fel y noder yn 2.9 uchod i'r Cyngor Llawn.

## 3. CADEIRYDDIAETHAU AC IS-GADEIRYDDIAETHAU

3.1 Yn unol â gofynion Rheoliadau Awdurdod Lleol (Trefniadau Amgen) (Cymru) 2007 mae yn ofynnol dyrannu cadeiryddiaethau pwyllgorau er mwyn sicrhau, cyn belled ag y bo'n ymarferol, fod cydbwysedd gwleidyddol yr awdurdod yn cael ei adlewyrchu gan y cadeiryddiaethau hynny.

3.2 Y drefn yn y Cyngor hwn yw dyrannu is-gadeiryddiaethau pwyllgor hefyd yn ôl cydbwysedd gwleidyddol ac i Grŵp Busnes y Cyngor drafod y trefniadau ymlaen llaw.

3.3 Yn unol â rheol 6.2 o Reoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Amgen)(Cymru) 2007

ni all aelod o'r un grŵp gwleidyddol â chadeirydd y Bwrdd fod yn gadeirydd nac yn is-gadeirydd y Prif Bwyllgor Craffu na chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

3.4 Oherwydd y newidiadau i'r Grŵp Democratiaid Rhyddfrydol mae Cadair y Pwyllgor Craffu Amgylchedd yn wag, er hwylustod gofynnir bod cadair ac is-gadair y pwyllgor yn cael eu cyfnewid. (gweler **Atodiad B**)

3.5 Yn ogystal, oherwydd y newid i'r cydbwysedd gwleidyddol golyga bod nifer y cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau yn newid gyda nifer y cadeiryddiaethau sydd gan Grŵp Plaid Cymru yn cynyddu un tra bod nifer y cadeiryddiaethau sydd gan y Grŵp Annibynnol yn gostwng o'r un nifer.

3.6 Yng nghyfarfodydd Grŵp Busnes y Cyngor a gynhaliwyd ar 5 Ebrill a 3 Mai cytunwyd, er mwyn ceisio creu cyn lleied o newid â phosib, peidio newid y cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau y pwyllgorau, heblaw cyfnewid cadair ac is gadair y Pwyllgor Craffu Amgylchedd, hyd oni bod canlyniad is etholiad Ward Arllechwedd yn wybyddus a bod y mater yn cael ei gyfeirio i'r Cyngor ym mis Gorffennaf.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Cyngor:-

i. beidio â newid dyraniad y seddau ar y pwyllgorau gan adael y pwyllgorau fel y maent hyd oni bod canlyniad yr is etholiad yn Ward Arllechwedd yn wybyddus a chadw seddau'r pwyllgorau Craffu Plant a Phobl Ifanc, Trwyddedu Canolog a Phensiynau yn wag a derbyn adroddiad ar y sefyllfa yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf;

ii. fabwysiadu cyfnewid Cadair ar Is-gadair y Pwyllgor Craffu Amgylchedd;

iii. ohirio dyrannu cadeiryddiaethau ac is-gadeiryddiaethau gweddill y pwyllgorau tan gyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf.

**ATODIAD A**

**BWRDD Y CYNGOR A'R PRIF BWYLLGOR CRAFFU**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd y Cyngor | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Prif Bwyllgor Craffu | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |

**PWYLLGORAU CRAFFU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Datblygu | 8 | 3 | 3 | 1 | | |
| Amgylchedd | 7 | 3 | 3 | 1 | 1 | |
| Plant a Phobl Ifanc | 7 | 3 | 3 | | 1 | 1 |
| Gofal | 8 | 3 | 2 | 1 | 1 | |

**PWYLLGORAU ERAILL**

| | Plaid Cymru | Annibynnol | Llais Gwynedd | Democratiaid Rhyddfrydol | Llafur | Unigol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Archwilio | 7 | 4 | 3 | | 1 | |
| Adnoddau Dynol | 6 | 2 | 2 | 1 | | |
| Cynllunio | 7 | 4 | 2 | 1 | 1 | |
| Trwyddedu Canolog | 5 | 3 | 2 | | | 1 |
| Apelau Cyflogaeth | 3 | 1 | 1 | 1 | 1 | |
| Pensiynau | 2 | 2 | 1 | | 1 | 1 |
| Cydbwyllgor Lleol | 6 | 2 | 2 | | 1 | |
| Cydbwyllgor Addysg Anghenion Arbennig | 4 | 2 | 1 | | | |
| Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd | 3 | 2 | 1 | 1 | 1 | |
| Iaith | 3 | 2 | 2 | | | |
| CYSAG | 3 | 2 | 1 | 1 | | |

**ATODIAD B**

| | Pwyllgor | Cadeirydd | Is-gadeirydd |
|---|---|---|---|
| 1 | Bwrdd y Cyngor | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 2 | Prif Bwyllgor Craffu | **Democratiaid Rhyddfrydol** | **Annibynnol** |
| 3 | Plant a Phobl Ifanc | **Annibynnol** | **Llafur** |
| 4 | Amgylchedd | **Plaid Cymru** | **Democratiaid Rhyddfrydol** |
| 5 | Gofal | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 6 | Datblygu | **Plaid Cymru** | **Plaid Cymru** |
| 7 | Archwilio | **Annibynnol** | **Llais Gwynedd** |
| 8 | Cynllunio | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |
| 9 | Trwyddedu Canolog | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 10 | Pensiynau | **Llafur** | **Plaid Cymru** |
| 11 | Adnoddau Dynol | **Annibynnol** | **Plaid Cymru** |
| 12 | Apelau Cyflogaeth | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 13 | Ardal Arfon | **Plaid Cymru** | **Annibynnol** |
| 14 | Ardal Dwyfor | **Llais Gwynedd** | **Plaid Cymru** |
| 15 | Ardal Meirionnydd | **Plaid Cymru** | **Llais Gwynedd** |